**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**18 Chwefror 2015**
**EITEM RHAGLEN RHIF**

**ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**

**AILYSTYRIED CAIS CYNLLUNIO**

**Amrywio amod rhif 3 caniatâd cynllunio cod rhif 24/2007/0694 (a roddwyd dan apêl) i ganiatáu i sefydliadau eraill, fel yr awdurdodwyd gan Heddlu Gogledd Cymru, ddefnyddio'r safle**

**Chwarel Craig y Ddywart, Rhewl, Rhuthun**

**CAIS RHIF 24/2014/1246/PS**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 I'r Pwyllgor Cynllunio ailystyried cais a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 21 Ionawr 2015.

1.2 Bydd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth gefndirol berthnasol i'r Aelodau a'r rheswm pam fod y cais wedi cael ei gyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor benderfynu yn ei gylch.

## 2. CEFNDIR

2.1 Cafodd y cais i amrywio Amod 3 y caniatâd cynllunio presennol yn ymwneud â defnyddio cyfleuster Drylliau Heddlu Gogledd Cymru yn Chwarel Rhewl ei argymell i'w gymeradwyo gan Swyddogion, gan roi sylw i gynnwys y cais, ystyriaethau cynllunio a sylwadau.

2.2 Mae copi o adroddiad y Swyddog i Bwyllgor Ionawr yn amgaeedig fel Atodiad 1 yr eitem hon. Mae'r Atodiad hefyd yn cynnwys sylwadau ar y cais a ddaeth i law gan Gyngor Cymuned Llanynys, a gafodd eu cynnwys ar y taflenni gwybodaeth hwyr a ddosbarthwyd cyn ystyried y cais.

2.3 Roedd y materion a godwyd yn y ddadl ym Mhwyllgor Ionawr yn cynnwys pryderon lleol ynghylch defnydd, gan gynnwys y mater o oruchwyliaeth ar y safle a gwiriadau defnyddwyr, sŵn, a goblygiadau priffyrdd.

2.4 Ar ddiwedd y drafodaeth ar yr eitem, efallai y bydd yr Aelodau'n cofio y cafwyd dwy bleidlais ar y cais:

- Roedd y bleidlais gyntaf ar gynnig i roi caniatâd gydag amrywiad i argymhelliad y swyddog, i ychwanegu amod yn gorfodi presenoldeb goruchwyliwr ar y safle pan fydd sefydliadau eraill yn defnyddio'r cyfleuster. Yn y bleidlais roedd 15 o blaid y gwelliant hwn a 5 yn ei erbyn.

- Roedd yr ail bleidlais ar gynnig i wrthod yr amrywiad i'r amod. Awgrymodd y Cynghorydd Merfyn Parry fel sail dros wrthod, (i) rheoli defnyddwyr ar y safle a (ii) cynnydd mewn troseddu lleol a

chenedlaethol gan y rhai sy'n hyfforddi ar gyfer defnyddio drylliau. Y bleidlais oedd 12 i wrthod caniatâd, ac 8 i roi caniatâd. Felly, y penderfyniad oedd gwrthod caniatâd.

2.5 Fel Swyddogion, rydym yn gwbl barchus o farn yr Aelodau a'r ffaith bod y Pwyllgor wedi pleidleisio i wrthod amrywio’r amod yn yr achos hwn. Ers hynny rydym wedi ceisio drafftio rheswm dros wrthod i gynnwys sail y pryderon a fynegwyd, er mwyn gweithredu penderfyniad y Pwyllgor. Fodd bynnag, gyda phob parch i'r sail a awgrymwyd dros wrthod a'r bleidlais yn y Pwyllgor, gan roi ystyriaeth briodol i'r wybodaeth a gyflwynwyd gyda'r cais, a’r dystiolaeth i gefnogi ei wrthod, ein barn broffesiynol ni yw bod golwg glir am wobr cost mewn apêl os byddwn yn cyhoeddi gwrthod ar sail y rhesymau a amlinellwyd. Ar y seiliau hyn y cyfeirir y cais yn ôl at y pwyllgor cynllunio i benderfynu yn ei gylch yn unol ag Adran 2.1.10 o'r Cynllun Dirprwyo.

2.6 Mae'r adran a ganlyn yn yr adroddiad felly yn cynnwys rhagor o sylwebaeth ar y materion sy'n codi mewn perthynas â'r cynnig, ac yn gofyn i Aelodau ailystyried y cais.

**3. MATERION ALLWEDDOL Y CAIS**

3.1 Mae adroddiad y Swyddog yn Atodiad 1 yn nodi sail y cais yn fanwl, yn gofyn i amrywio Amod 3. Mae'n esbonio bod y cyfleuster wedi’i hen sefydlu, ac mewn perthynas â'r cais penodol, bod ei ddefnydd yn cael ei reoli gan amodau a osodir gan arolygydd cynllunio ar apêl yn 2008. Mae'r amrywiad a geisir yn ei hanfod yn caniatáu sefydliadau eraill a awdurdodwyd gan Heddlu Gogledd Cymru i ddefnyddio'r safle yn ystod oriau defnyddio a ganiateir eisoes.

3.2 Cyfeirir at ymatebion ynghylch y cais gan ymgyngoreion ac unigolion preifat ar dudalen 223 a 224 o adroddiad y Swyddog. Mae ymateb Cyngor Cymuned Llanynys a nodiadau’r Swyddogion sy'n gysylltiedig â nhw, fel y cynhwyswyd ar y taflenni gwybodaeth hwyr i Bwyllgor mis Ionawr, ar ddalen olaf yr Atodiad. Mae'r pryderon a fynegwyd dros sŵn posibl, effeithiau mynediad / priffyrdd, ofn mwy o droseddu yn yr ardal, a thros logwyr ddim yn cael eu goruchwylio.

3.3 Tynnir sylw penodol at y cynnwys yn Adran 1.6 o adroddiad y Swyddog ar Dudalennau 226 a 227. Mae'r wybodaeth hon yn tynnu sylw at y wybodaeth a ddarparwyd gan Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â defnyddwyr y cyfleuster a'r trefniadau rheoli safle manwl. I grynhoi:

* Byddai'r defnydd trwy glybiau gwn achrededig a sefydliadau eraill y llywodraeth

* O ran Rheoli Safle, mae’r cais yn nodi:–

- byddai unrhyw sefydliad sy'n defnyddio'r cyfleuster yn gorfod bod yn gorff ar raddfa fawr ac â safonau wedi’u hachredu (fel Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain);

- yn gorfod cael hyfforddwyr trwyddedig yn eu lle;

- byddai'n rhaid i'r sefydliad gael asesiadau risg ar waith ar gyfer eu gweithgareddau a dal yswiriant atebolrwydd cyhoeddus addas;

- Byddai angen i Brif Swyddogion HGC lofnodi awdurdod i'r cyrff ddefnyddio'r safle

- byddai pob gweithgaredd yn cael ei fonitro gan Warden y Maes, a fyddai hefyd yn gyfrifol am agor a chau'r safle a sicrhau y byddai saethu ond yn digwydd o fewn yr oriau a ganiateir;

- byddai cofrestr mynychwyr ac oriau defnyddio’n cael eu cadw; a

- mewn achos o unrhyw weithgareddau anniogel neu achosion o dorri rheolau, yna byddai'r Sefydliad yn colli ei awdurdod i ddefnyddio'r maes.

3.4 Mewn perthynas â rheolaeth dros ddefnyddwyr y safle, byddai Swyddogion yn awgrymu bod y cyflwyniad yn egluro bod hyn yn fater i Heddlu Gogledd Cymru, ac fel y nodwyd uchod, bod gwiriadau manwl ar waith fel rhan o'u trefn goruchwylio a ddylai gynnig cysur addas dros bwy sy'n defnyddio'r cyfleuster, gan gynnwys monitro drwy gyfrwng Warden y Maes.

3.5 Mewn perthynas ag ofn trosedd, mae adroddiad y Swyddog yn derbyn y gallai hyn fod yn ystyriaeth berthnasol ond mae'n cwestiynu sut y byddai'n sail amddiffynadwy dros wrthod newid yr amod, o ystyried bod y safle yn cael ei redeg gan gorff cyfrifol ar ffurf Heddlu Gogledd Cymru, a fyddai'n gorfod awdurdodi pa sefydliadau sy'n defnyddio'r cyfleuster, ac yn monitro defnyddwyr unigol.

3.6 Wrth gynnig cyngor i Aelodau ar y mater hwn yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor yn Ionawr, mae Swyddogion yn cydnabod efallai bod y canfyddiad o niwed yn ystyriaeth ddilys wrth asesu cais cynllunio, ond ei fod yn fater anodd iawn penderfynu pa mor bwysig, os o gwbl, yw'r ofn o drosedd yn codi o'r defnydd posibl o'r maes tanio gan sefydliadau sy'n cael eu hawdurdodi a'u goruchwylio gan gorff cyfrifol megis Heddlu Gogledd Cymru. Wrth amddiffyn unrhyw apêl yn erbyn gwrthod, byddai angen darparu sail tystiolaeth glir bod tebygolrwydd rhesymol y bydd cynnydd mewn troseddu yn yr ardal neu'n genedlaethol o ganlyniad i ganiatáu'r amrywiad. Nid yw swyddogion yn ystyried bod tystiolaeth o'r fath i gefnogi gwrthod y cais.

3.6 Byddai'r Swyddogion o'r farn, felly, er eu bod yn gwerthfawrogi sail y pryderon, nid yw hwn yn achos lle dylid rhoi pwys sylweddol ar yr ofn o gynnydd mewn troseddu fel sail ar gyfer gwrthsefyll y cais.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Wrth gydnabod penderfyniad yr Aelodau ar y cais, gan ystyried cynnwys yr adroddiad hwn ac adroddiad y Swyddog i'r Pwyllgor yn Ionawr, argymhellir bod y Pwyllgor Cynllunio yn mabwysiadu argymhelliad gwreiddiol y Swyddog Cynllunio a chaniatáu amrywio'r amod.

**GRAHAM H. BOASE**
**PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**